



R6yl

Chweched y Rhyl
Rhyl Sixth

Prospectws Prospectus

2010





Cynnwys

Croeso i Chweched y Rhyl	04
Neges gan y Prifathro	04
Cefnogaeth a Lles Myfyrwyr	06
Bywyd yn Chweched y Rhyl	08
Digwyddiadau Agored	08
Eglurhad o'r Cymwysterau	10
Y Fagloriaeth Gymraeg	10
Mynegai Cyrsiau	12
Lefelau AS/A2	15
Cyrsiau Galwedigaethol	25
Sut i Ymgeisio	40
Cysylltu	42

Mae Coleg Llandrillo Cymru yn herio anffafiaeth ym mhob ffurf, ac mae'n monitro effeithiolrwydd ei bolisiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chydraddoldeb Hil, y gellir dod o hyd iddynt ar wefan y Coleg. Dymuna Bwrdd y Llywodraeth a'r staff sicrhau fod pawb sydd yn rhan o'r Coleg yn cael eu trin yn deg. Mae'r Coleg yn falch o fedru darparu cyngor a chefnogaeth arbenigol sy'n ei wneud yn rhwyddach i fyfyrwyr ac ymwelwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anableddau.

Os ydych chi'n dymuno dod i unrhyw un o safleoedd y Coleg a bod gennych ofynion arbennig, cysylltwch â'r Cyd-drefnydd Cefnogaeth Dysgu os gwelwch yn dda ar **01492 546 666 est. 535** cyn eich ymweliad.

Contents

Welcome to the Rhyl Sixth	05
A Message from the Principal	05
Student Support & Welfare	07
Life at the Rhyl Sixth	09
Open Events	09
Qualifications Explained	11
The Welsh Baccalaureate	11
Course Index	13
AS/A2 Levels	15
Vocational Courses	25
How to Apply	41
Contact	43

Coleg Llandrillo Cymru challenges discrimination in all its forms, and monitors the effectiveness of its Equality & Diversity and Race Equality policies, which can be found on the College's website. The Board of Governors and staff wish to ensure that all those who are part of the College are fairly treated. The College is pleased to provide specialist advice and support to make it easier for students and visitors with learning difficulties and/or disabilities.

If you intend to come to any of the College sites and you have special requirements, please contact the Learning Support Co-ordinator on **01492 546 666 ext. 535** prior to your visit.





Croeso i Chweched y Rhyl

Mae Chweched y Rhyl yn bartneriaeth chweched dosbarth newydd i bobl ifanc y Rhyl a'r ardal gyfagos, sy'n cynnig y dewis ehangaf o opsiynau pwnc Lefel AS/A a galwedigaethol yn Sir Ddinbych.

O 2010, bydd amrywiaeth hyd yn oed yn fwy o gyrsiau ar gael. Caiff y rhain eu cynnig drwy ganolfan chweched dosbarth unswydd, a arianwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, sydd i gael ei hadeiladu ar gampws Coleg Llandrillo Rhyl.

Yn y prospectws yma, fe welwch fwy am yr amrywiaeth newydd, estynedig o gyrsiau sydd ar gael, y ganolfan chweched dosbarth gwerth miliynau o bunnoedd fydd wedi'i adeiladu yn 2010 a'r math o gyngor, arweiniad a chefnogaeth y byddwch yn ei dderbyn drwy gydol eich amser yn y Coleg.

Neges gan y Prifathro

Croeso i Goleg Llandrillo Cymru a Chweched y Rhyl. Mae'n bleser gennym eich bod yn ystyried Chweched y Rhyl fel opsiwn i barhau gyda'ch astudiaethau. Mae Chweched yr Rhyl yn ddatblygiad newydd a fydd yn cynnig dewis ac ansawdd rhagorol i ddysgwyr 16+ yn y Rhyl a'r ardaloedd amgylchynol.

Bydd Chweched y Rhyl yn rhoi sylw arbennig i gefnogi myfyrwyr, gwranddo arnynt a'u tywys drwy brofiad y Coleg. Yn ychwanegol, anogir myfyrwyr sy'n astudio yn Chweched y Rhyl i gadw cysylltiad agos gyda'u hysgol uwchradd, er enghraifft drwy fentora a chefnogi disgyblion iau.

Cafodd Coleg Llandrillo Cymru ei raddio'n rhagorol gan Arolygwyr y Llywodraeth, ar ôl ennill y graddau uchaf posibl ar gyfer y saith elfen o'r broses arolygu. Mae'r canlyniadau digyffelyb yma'n gosod y Coleg fel un o'r Colegau gorau yng Nghymru ac yn un o'r gorau oll yn y DU, dyma'r ansawdd y bydd y Coleg yn ei ddod i Chweched y Rhyl.

Os ymunwch chi â Chweched y Rhyl i astudio Rhaglenni Lefel AS neu Alwedigaethol, rwy'n siŵr y byddwch yn credu y bydd yn brofiad buddiol a gwerthfawr.

Edrychaf ymlaen i'ch croesawu yn y dyfodol agos.

Huw Evans OBE
Prifathro, Coleg Llandrillo Cymru

R6yl



A Message from the Principal

Welcome to Coleg Llandrillo Cymru and the Rhyl Sixth. We are delighted that you are considering the Rhyl Sixth as an option to continue with your studies. The Rhyl Sixth is a new development which will offer outstanding choice and quality to 16+ learners in Rhyl and surrounding areas.

The Rhyl Sixth will give particular attention to supporting students, listening to them and guiding them through the College experience. In addition, students studying at the Rhyl Sixth will be encouraged to maintain close links with their school, for example, by mentoring and supporting younger pupils.

Coleg Llandrillo Cymru has been graded as outstanding by Government Inspectors, having achieved the highest possible grades for all seven elements of the inspection process. These exceptional results firmly place the College as one of the best Colleges in Wales and one of the very best in the UK. It is this quality that the College will bring to the Rhyl Sixth.

Whether you join the Rhyl Sixth to study AS Level or Vocational Programmes, I am sure you will find it a rewarding and valuable experience.

I look forward to welcoming you in the near future.

Huw Evans OBE
Principal, Coleg Llandrillo Cymru

Welcome to the Rhyl Sixth

The Rhyl Sixth is a new partnership sixth form for the young people of Rhyl and the surrounding area, offering the widest choice of AS/A Level and Vocational subject options in Denbighshire.

From 2010, an even bigger range of courses will be available. These will be offered through a dedicated sixth form centre, funded by the Welsh Assembly Government, to be purpose built on the Coleg Llandrillo Rhyl campus.


In this prospectus, you'll find out about the new, extended range of courses available, the multi million pound, sixth form centre, and the kind of one-to-one advice, guidance and support you'll receive throughout your time at College.

Cefnogaeth a Lles Myfyrwyr



Dwi'n hoffi awyrgylch gyfeillgar ac ochr gymdeithasol y Coleg, ond mae'r tiwtoriaid yn arbennig o hawdd i dynnu ymlaen gyda nhw ac maent wastad yn gwneud beth allant i mi.

Justin Turton
Lefel A Astudiaethau Ffilm, Saesneg Iaith a Chelf a Dylunio



Cefnogaeth ac Arweiniad Pwrpasol

Beth bynnag ydych chi'n bwriadu ei astudio, fel myfyriwr Chweched y Rhyl, cewch fynediad i gyngor, arweiniad a chefnogaeth un i un gan staff Coleg profiadol a chefnogol drwy gydol eich cwrs.

Caiff cysylltiadau cryf eu cadw gydag ysgolion partner, felly, fel disgybl chweched dosbarth, gallwch barhau i fentora a chefnogi eich cyfoedion iau.

Cefnogaeth Tiwtor Personol

Bydd gennych Diwtor Personol i'ch cynorthwyo a'ch chefnogi drwy gydol eich amser yn y Coleg. Bydd eich Tiwtor Personol yn cwrdd â chi'n rheolaidd ac yn:

- helpu i gynllunio eich rhaglen astudio.
- helpu i drefnu cefnogaeth dysgu ychwanegol oes angen.
- monitro eich presenoldeb.
- trefnu cyfweiliadau gyrfaoel i chi.
- eich helpu i gynllunio at y dyfodol ac ysgrifennu eich tystilythyr.
- eich helpu i baratoi ar gyfer byd gwaith.
- adolygu eich cynnydd ym mhob maes pwnc.
- trafod gyda'ch teulu, yn gyrru adroddiadau rheolaidd atynt ac yn eu gwahodd i nosweithiau adolygu myfyriwr.

Cyngor ac Arweiniad

Mae Tîm Cyngor ac Arweiniad y Coleg yn cynnig:

- cyngor am opsiynau astudio presennol ac yn y dyfodol i'ch helpu i wneud y dewis cywir.
- cyngor am gefnogaeth ariannol, gan gynnwys Lwfans Cynhaliadaeth Addysg.
- help wrth drefnu trafniadaeth Coleg er mwyn i chi gyrraedd a gadael y Coleg.
- gwybodaeth am ddarparwyr gofal plant a help ariannol ar gyfer gofal plant.
- cyngor gyrfaoel.
- gwybodaeth a chynghori am iechyd a ffyniant.
- cyngor, cefnogaeth a chynghori cyfrinachol drwy Wasanaeth Cefnogaeth Personol Myfyriwr.

Cefnogaeth Astudio

Pa bynnag gwrs ddewiswch chi, cewch fynediad i ystod o gyfleusterau cefnogaeth dysgu:

- Ystafelloedd TG gyda'r dechnoleg a meddalwedd ddiweddaraf, cefnogaeth technegol ac opsiynau dysgu agored.
- Llyfrgell.
- Llyfrgell gyrfaoedd ac adnoddau Addysg Uwch.
- Ardaloedd astudio tawel.
- Eich cyfrif e-bost eich hun a mynediad i'r rhyngwyd.
- Cymorth ychwanegol gyda Mathemateg, Saesneg a Sgiliau Astudio os ydych ei angen.

Profiad Gwaith, Cyngor Gyrfaoel ac Opsiynau yn y Dyfodol

Fel myfyriwr llawn amser, cewch brofiad gwaith gwerthfawr gyda chyflogwyr lleol, cenedlaethol neu ryngwladol a chymryd rhan mewn Rhaglen Addysg Gyrfaoedd.

Bydd Cynghorwyr Gyrfaoel Cymru ar gael i ddarparu arweiniad personol a chefnogaeth drwy gydol eich cwrs a chewch gyfle i gymryd rhan mewn nifer o ddiwyddiadau ac ymweliadau gyrfaoel er mwyn eich helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Student Support & Welfare



I like the friendly atmosphere and social side of College, but the tutors are also extremely easy to get on with and always do what they can for me.

Justin Turton
A Level Film Studies, English Language and Art & Design



Dedicated Support & Guidance

Whatever you plan to study, as a Rhyl Sixth student, you'll have access to one-to-one advice, guidance and support from experienced and supportive College staff throughout your course.

Strong links will also be maintained with partner schools so, as a sixth former, you'll be able to continue to mentor and support your younger peers.

Personal Tutor Support

You will have a Personal Tutor to assist and support you throughout your time at College. Your Personal Tutor will meet regularly with you and:

- help plan your programme of study.
- help you arrange extra learning support if needed.
- monitor your attendance.
- arrange careers interviews for you.
- help you plan for the future and write your reference.
- help you prepare for the world of work.
- review your progress in each subject area.
- liaise with your family, send them regular reports and invite them to student review evenings.

Advice & Guidance

The College Advice & Guidance Team offers:

- impartial advice about current and future study options to help you make the right choice.
- advice on financial support, including the Education Maintenance Allowance.
- help with organising College transport to get you to and from College.
- information about childcare providers and financial help for childcare.
- careers guidance.
- information and advice on health and welfare.
- confidential advice, support and counselling through the Student Personal Support Service.

Study Support

Whatever course you choose, you'll have access to a range of learning support facilities:

- IT suites with the latest technology and software, technical support and open learning options.
- Library.
- Careers library and Higher Education resources.
- Quiet study areas.
- Your own email account and access to the internet.
- Extra help with Maths, English and Study Skills if you need it.

Work Experience, Careers Advice & Future Options

As a full-time student, you'll get valuable work experience with local, national or international employers and take part in a Careers Education Programme.

Careers Wales Advisers will be available to provide personal guidance and support throughout your course and you'll have the chance to take part in a number of careers events and visits to help you plan for the future.

Bywyd yn Chweched y Rhyl



Y Dewis Ehangaf o Bynciau

Yn 2009, cynigiodd Chweched y Rhyl y dewis ehangaf o opsiynau pwnc Lefel AS/A a Galwedigaethol yn Sir Ddinbych.

Nawr, ar gyfer mis Medi 2010, mae mwy o gyrsiau wedi cael eu hychwanegu! Dewiswch o 25 pwnc Lefel AS a 33 opsiwn Galwedigaethol ar Lefel 2 a 3. Gallwch hyd yn oed gymysgu Lefelau AS a phynciau Galwedigaethol i gael y cymhwyster cywir ar gyfer eich gyrfa ddewisol.

Digwyddiadau Agored

Ar ddydd Mercher 10 Chwefror 2010, bydd Digwyddiad Agored 'Mewn i Chweched y Rhyl' yn cael ei gynnal yng Ngholeg Llandrillo y Rhyl, o 5.30 tan 7.30yh.

Caiff disgyblion Blwyddyn 10 a 11 yn y Rhyl eu gwahodd i gymryd rhan mewn rhaglen o ymweliadau a chyflwyniadau grŵp yn yr ysgol ac yn y Coleg, a bydd yna gyfleoedd i rieni a gwarchodwyr i gwrdd â Thiworiaid Personol a staff Chweched y Rhyl.

Canlyniadau Rhagorol

Efallai y byddwch yn synnu wrth ddysgu mai Coleg Llandrillo Cymru yw un o'r Colegau gorau, nid yng Nghymru yn unig, ond yn y DU!

Derbyniodd y graddau uchaf yn yr arolygiadau diweddaraf am eu holl ddarpariaeth: Addysg Bellach, Addysg Uwch a Dysgu yn y Gweithle. Mae'r canlyniadau yma'n gosod Coleg Llandrillo Cymru fel un o'r Colegau gorau yn y DU.

Bob blwyddyn, mae myfyrwyr Coleg Llandrillo Cymru yn ennill llyfudd mewn prifysgolion mawreddog ar draws y DU, gan gynnwys Rhydychen, Caergrawnt, Durham a Bryste. Mae'r Coleg, ei staff a myfyrwyr hefyd yn ennill nifer o wobrau cenedlaethol a rhyngwladol am ragoriaeth bob blwyddyn.

Fel myfyriwr Chweched y Rhyl yn dechrau ym mis Medi 2010, byddwch ymysg y cyntaf i astudio yng Nghanolfan Chweched y Rhyl £3.5miliwn newydd pwrpasol ar Gampws Coleg Llandrillo Cymru y Rhyl.

Bydd y cyfleusterau yma'n cynnwys ardaloedd dysgu ac addysgu, labordai o'r safon uchaf, ystafell gyffredin ac ardaloedd astudio tawel. Bydd gennych fynediad i gyfleusterau TG diweddaraf, llyfrgell gyrfaeodd, adnoddau Addysg Uwch, ar gyfer egwyl yn ystod gwersi, Caffi Java City a Ffreutur Windows.

Life at the Rhyl Sixth

As a Rhyl Sixth student starting in September 2010, you will be amongst the first to study at the new, custom built, £3.5million Rhyl Sixth Centre on Coleg Llandrillo Cymru's Rhyl Campus.

These fantastic new facilities will include teaching and learning areas, high specification laboratories, a common room and quiet study spaces. You'll also have access to the latest IT facilities, careers library, Higher Education resources and, for break time in between classes, Java City Café and Windows Cafeteria.

The Widest Subject Choice

In 2009, the Rhyl Sixth offered the widest choice of AS/A Level and Vocational subject options in Denbighshire.

Now, for September 2010, even more courses have been added! Choose from 25 AS Level subjects and 33 Vocational options at both Levels 2 and 3. You can even mix and match AS Levels with Vocational subjects to get the right qualifications for your chosen career.

Open Events

An 'Into the Rhyl Sixth' Open Event will be held at Coleg Llandrillo Rhyl on Wednesday 10 February 2010, from 5.30 until 7.30pm.

Year 10 and 11 pupils in Rhyl will also be invited to take part in a programme of group visits and presentations at school and at College, and there will be additional opportunities for parents and guardians to meet Personal Tutors and staff at the Rhyl Sixth.

Outstanding Results

You might be surprised to learn that Coleg Llandrillo Cymru is one of the best Colleges, not just in Wales, but in the UK!

It has received top grades in the most recent inspections of all its provision: Further Education, Higher Education and Work-based Learning. These results place Coleg Llandrillo Cymru as one of the very best Colleges in the UK.

Each year, Coleg Llandrillo Cymru students gain places at prestigious universities throughout the UK, including Oxford, Cambridge, Durham and Bristol. The College, its staff and its students also win numerous national and international awards for excellence every year.

Eglurhad o'r Cymwysterau

Lefelau AS ac A

Caiff y cyrsiau yma eu dylunio i'ch paratoi i ddatblygu i astudiaeth lefel prifysgol neu weithio mewn amrywiaeth o broffesiynau a diwydiannau. Maent yn profi eich gwybodaeth a dealltwriaeth o bwnc drwy arholiadau a gwaith cwrs, a'ch galluogi i ddatblygu astudiaeth dadansodol, pellach a sgiliau TCG. Gyda 25 pwnc i ddewis ohonynt, gallwch barhau gyda pynciau rydych yn eu gwybod a'u mwynhau neu ddewis o ystod eang o opsiynau newydd.

Yn eich blwyddyn gyntaf, byddwch yn astudio tri neu bedwar pwnc yn arwain at gymhwyster Lefel AS. Yna gallech 'ddiweddaru' eich pynciau i gymhwyster Lefel A2 llawn yn eich ail flwyddyn.

Byddwch hefyd yn astudio'r Fagloriaeth Gymraeg ochr yn ochr a'ch rhaglen Lefel A. Ar Lefel Uwch, bydd hyn werth 120 pwynt UCAS ac mae'n gyfwerth i radd 'A' Lefel A.

Gofynion Mynediad

Mae isafswm o bump TGAU Gradd C gan gynnwys iaith Saesneg neu Gymraeg (Iaith Gyntaf) a Mathemateg, neu gymwysterau priodol cyfwerth fel arfer yn gwarantu mynediad i gwrs Lefel AS. Gellir gweld manylion mynediad ychwanegol yng nghrynodebau'r cwrs.

Cyrsiau Galwedigaethol

Os ydych chi'n chwilio am gwrs yn fwy cysylltiedig i waith, gallai cwrs Galwedigaethol fod i chi. Mae'r cyrsiau yma ar gael ar Lefel 2 a 3 ac maent wedi eu dylunio i ddarparu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau arbenigol i'ch paratoi am faes penodol o waith neu astudiaeth lefel prifysgol.

Mae cymwysterau BTEC a City & Guilds ar gael mewn ystod eang o bynciau a cewch eich profi drwy asesiad parhaol (er enghraifft, drwy waith cwrs neu dasgau ymarferol), felly ni fydd yna unrhyw arholiadau terfynol traddodiadol. Mae Diploma Cyntaf yn gyfwerth i bedwar TGAU, mae'r Dyfarniad Cenedlaethol yn gyfwerth i un Lefel A, mae'r Tystysgrif Cenedlaethol yn gyfwerth i ddau Lefel A ac mae'r Diploma Cenedlaethol yn gyfwerth i dri Lefel A.

Gofynion Mynediad

Mae angen isafswm o bump TGAU Gradd C neu uwch i gael mynediad ar gwrs Galwedigaethol Lefel 3 megis Diploma Cenedlaethol. Byddwch angen dau pas TGAU i astudio cwrs Galwedigaethol Lefel 2 megis Diploma Cyntaf neu NVQ 2. Gellir gweld manylion mynediad ychwanegol yng nghrynodebau y cwrs.

Y Fagloriaeth Gymraeg

Caiff y Fagloriaeth Gymraeg ei werthfawrogi gan gyflogwyr a phrifysgolion ac fe'i ddyluniwyd i ddatblygu eich sgiliau personol, annog annibyniaeth ac ychwanegu profiad bywyd go iawn i'ch astudiaethau. Yn Chweched y Rhyf, byddwch yn cyfuno eich astudiaethau dewisol gyda'r Fagloriaeth Gymraeg ar Lefel 2 neu Lefel 3.

Mae'r Fagloriaeth Gymraeg yn cyfuno cymwysterau traddodiadol gyda'r Dyfarniad Craidd. Mae'r Craidd yn cynnwys:

- Cymru, Ewrop a'r Byd, gan gynnwys iaith ac Ymchwiliad Unigol
- Addysg Personol a Cymdeithasol gan gynnwys Cyfranogiad Cymunedol
- Addysg yn Berthynol i Fusnes gan gynnwys Profiad Gwaith a Menter
- Sgiliau Hanfodol

Bydd cwblhad llwyddiannus o'r Diploma Uwch yn gyfwerth i Gradd A ychwanegol ar Lefel A ac mae werth 120 o bwyntiau UCAS er mwyn cael mynediad i brifysgol.

Qualifications Explained



AS & A Levels

These courses are designed to prepare you for progression to university level study or work in a variety of professions and industries. They test your knowledge and understanding of a subject through examinations and coursework, and also allow you to develop analytical, advanced study and ICT skills. With 25 subjects to choose from, you can continue with subjects you know and enjoy or choose from a range of new options.

In your first year, you will study three or four subjects leading to AS Level qualifications. You could then 'upgrade' your subjects to the full A2 Level qualification in your second year.

You will also study the Welsh Baccalaureate alongside your A Level programme. At Advanced Level, this is worth 120 UCAS points and is the equivalent to an 'A' grade at A Level.

Entry Requirements

A minimum of five GCSEs at Grade C or above, including English Language or Welsh (First Language) and Mathematics, or appropriate equivalent qualifications, normally guarantees entry on to an AS Level course. Details of additional entry requirements can be found in the course summaries.

Vocational Courses

If a more work-related course is what you're looking for, a Vocational course could be for you. These practical courses are available at Levels 2 and 3 and are designed to provide specialist knowledge, understanding and skills to prepare you for a particular field of work or university level study.

BTEC and City & Guilds qualifications are available in a wide range of work-related subjects and you'll be tested through continuous assessment (for example, through course work or practical tasks), so there won't be any traditional final exams. A First Diploma is equivalent to four GCSEs, the National Award is equivalent to one A Level, the National Certificate to two A Levels and the National Diploma is equivalent to three A Levels.

Entry Requirements

A minimum of five GCSEs at Grade C or above is normally required for entry on to a Vocational Level 3 course such as a National Diploma. You would need two GCSE passes to study a Level 2 Vocational course such as a First Diploma or NVQ 2. Details of additional entry requirements can be found in the course summaries.

The Welsh Baccalaureate

The Welsh Baccalaureate is valued by both employers and universities and is designed to develop your personal skills, encourage independence and add real life experience to your studies. At the Rhyf Sixth, you'll combine your chosen studies with the Welsh Baccalaureate at Level 2 or Level 3.

The Welsh Baccalaureate combines traditional qualifications with a Core Award. The Core consists of:

- Wales, Europe & the World, including a language and Individual Investigation
- Personal & Social Education including Community Participation
- Work Related Education including Work Experience and Enterprise
- Essential Skills

Successful completion of the Advanced Diploma will be equivalent to an additional Grade A at A Level and is worth 120 UCAS points for entry to university.

Mynegai Cyrsiau

Bydd y tudalennau canlynol yn eich darparu gyda mwy o wybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael yn Chweched y Rhyl. Gallwch ddysgu mwy o wybodaeth am gynnwys bob cwrs drwy fynd i www.llandrillo.ac.uk/chwechedyrhyl.

Mae dewisiadau pwnc yn cynnwys:

Lefelau AS/A2

Celf a Dylunio	16
Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain)	16
Celf a Dylunio (Graffeg)	16
Celf a Dylunio (Tecstilau)	16
Bywydeg	16
Astudiaethau Busnes	16
Cemeg	16
Meddwl yn Feirniadol	18
Astudiaethau Drama a Theatr	18
Electroneg	18
Iaith Saesneg	18
Llenyddiaeth Saesneg	18
Astudiaethau Ffilm	20
Ffrangeg	20
Daearyddiaeth	20
Hanes	20
Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	20
Mathemateg	20
Astudiaethau Cyfryngau	20
Addysg Gorfforol	20
Ffiseg	22
Seicoleg	22
Addysg Grefyddol	22
Cymdeithaseg	22
Cymraeg (Ail Iaith)	22

Cyrsiau Galwedigaethol

Cyrsiau Lefel 3

Celf a Dylunio Gymhwysol Uwch	26
Dyfarniad Cenedlaethol BTEC mewn Busnes	26
Dyfarniad Cenedlaethol BTEC mewn Adwerthu	26
Diploma Cenedlaethol BTEC mewn Adeiladwaith	26
Diploma Cenedlaethol BTEC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	26
Diploma Cenedlaethol BTEC mewn Gwasanaeth Cyhoeddus	26
Diploma Cenedlaethol BTEC mewn Trwsio a Thechnoleg Cerbyd	28
Diploma Cenedlaethol Uwch mewn Teithio a Thwristiaeth	28
Diploma mewn Sgiliau Gwaith Gweinyddol Proffesiynol	28
NVQ 3 Trin Gwallt	28
NVQ 3 Ewinedd	28

Cyrsiau Lefel 2

Diploma Cyntaf Celf a Dylunio (Ffasiwn)	30
Diploma Cyntaf BTEC mewn Busnes	30
Diploma Cyntaf BTEC mewn Adeiladwaith	30
Diploma Cyntaf BTEC mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	32
Diploma Cyntaf BTEC mewn Cynhyrchiad Cyfryngau	32
Diploma Cyntaf BTEC mewn Gwasanaethau Cyhoeddus (Iwniform)	32
Diploma Cyntaf BTEC mewn Adwerthu	32
Diploma Cyntaf BTEC mewn Chwaraeon	32
Diploma Cyntaf BTEC mewn Technoleg Cerbyd	32
Dyfarniad/Tystysgrif/Diploma CACHE Lefel 2 mewn Gofal Plant ac Addysg	34
Diploma Cyntaf City & Guilds mewn Teithio a Thwristiaeth	34
Tystysgrif mewn Sgiliau Gwaith Gweinyddol Proffesiynol	34
FCA (Dyfarniad Adeiladu Sylfaenol) Crefftau Trywel	34
FCA (Dyfarniad Adeiladu Sylfaenol) Galwedigaethau Pren	34
TGAU Saesneg	36
TGAU Mathemateg	36
TGAU Gwyddoniaeth	36
NVQ 2 Gosodiad Chynhaliaeth a Nwy	38
NVQ 2 Trin Gwallt	38
NVQ 2 Gwasanaethau Ewinedd	38
Rhaglen Cyn Prentis Lefel 2 Gweithrediadau Corff a Phaent Cerbyd	38

Course Index

The following pages will provide you with more information about the courses on offer through the Rhyl Sixth. You can find more detail about the content of each course by visiting www.llandrillo.ac.uk/rhylsixth.

Subject choices include:

AS/A2 Levels

Art & Design	17
Art & Design (Fine Art)	17
Art & Design (Graphics)	17
Art & Design (Textiles)	17
Biology	17
Business Studies	17
Chemistry	17
Critical Thinking	19
Drama & Theatre Studies	19
Electronics	19
English Language	19
English Literature	19
Film Studies	21
French	21
Geography	21
History	21
Information & Communication Technology	21
Mathematics	21
Media Studies	21
Physical Education	21
Physics	23
Psychology	23
Religious Education	23
Sociology	23
Welsh (Second Language)	23

Vocational Courses

Level 3 Courses

Advanced Applied Art & Design	27
BTEC National Award in Business	27
BTEC National Award in Retail	27
BTEC National Diploma in Construction	27
BTEC National Diploma in Health & Social Care	27
BTEC National Diploma in Public Service	27
BTEC National Diploma in Vehicle Repair & Technology	29
CACHE Level 3 Award/Certificate/Diploma in Childcare & Education	29
City & Guilds Advanced National Diploma in Travel & Tourism	29
Diploma in Advanced Professional Administrative Workskills	29
NVQ 3 Hairdressing	29
NVQ 3 Nails	29

Level 2 Courses

First Diploma Art & Design (Fashion)	31
BTEC First Diploma in Business	31
BTEC First Diploma in Construction	31
BTEC First Diploma in Health & Social Care	33
BTEC First Diploma in Media Production	33
BTEC First Diploma in Public Services (Uniformed)	33
BTEC First Diploma in Retail	33
BTEC First Diploma in Sport	33
BTEC First Diploma in Vehicle Technology	33
CACHE Level 2 Award/Certificate/Diploma in Childcare & Education	35
City & Guilds First Diploma in Travel & Tourism	35
Certificate in Professional Administrative Work Skills	35
FCA (Foundation Construction Award) Trowel Trades	35
FCA (Foundation Construction Award) Wood Occupations	35
GCSE English	37
GCSE Mathematics	37
GCSE Science	37
NVQ 2 Gas Installation & Maintenance	39
NVQ 2 Hairdressing	39
NVQ 2 Nail Services	39
Pre-Apprentice Programme Level 2 Vehicle Body & Paint Operations	39

lefelau

AS/A2

AS/A2

levels

Lefelau AS/A2

Celf a Dylunio

Mae'r cwrs yma'n gorchuddio cyfuniad o Gelfyddyd Gain, Tecstilau Creadigol, Ffotograffiaeth a Dylunio 3D a byddai'n ddelfrydol os ydych chi'n cael ysgogiad o arsylwi a mwynhau llunio mewn cyfrwng amrywiol. Byddwch yn dysgu i ddatblygu eich sgiliau celf technegol ac yn mwynhau edrych ar waith a gynhrychwyd gan artistiaid.

Gofynion Mynediad:

5 TGAU Gradd C neu uwch (gweler t10), gan gynnwys isafswm Gradd C mewn pwnc yn seiliedig ar Gelf megis Celfyddyd Gain neu Gelf a Dylunio.

Beth allaf ei wneud nesaf?

Cyrsiau lefel prifysgol yng Ngholeg Llandrillo Cymru, gan gynnwys Gradd Sylfaen Celf a Dylunio neu HND/HNC Ffotograffiaeth, cyrsiau lefel prifysgol eraill, gwaith.

Celf a Dylunio (Celfyddyd Gain)

Dyma gwrs eang, ymarferol, sy'n eich cyflwyno i ystod eang o ddeunyddiau a thechnegau o fewn paentio, gwneud print a cherflunwaith.

Gofynion Mynediad:

5 TGAU Gradd C neu uwch (gweler t10), gan gynnwys isafswm Gradd C mewn pwnc yn seiliedig ar Gelf, megis Celfyddyd Gain neu Celf a Dylunio.

Beth allaf ei wneud nesaf?

Cyrsiau lefel prifysgol yng Ngholeg Llandrillo Cymru, gan gynnwys Gradd Sylfaen Celf a Dylunio neu HND/HNC Ffotograffiaeth, cyrsiau lefel prifysgol eraill, gwaith.



Ar ôl gadael yr ysgol, rhoddodd y Coleg mwy o steil addysg oedolyn i mi. Dwi'n gobeithio mynd i'r brifysgol ar ôl fy Lefelau A; mae'r Coleg wedi fy mharatoi ar gyfer y dyfodol.

Caroline Thomas
Lefel A Cymdeithaseg, Seicoleg a Saesneg Iaith



Celf a Dylunio (Graffeg)

Bydd y cwrs yma'n rhoi cyfle i chi archwilio agweddau gwahanol o Ddylunio Graffeg o ffurf llythrennol i ddylunio graffeg cyfrifiadurol. Gallwch ddewis o ystod o bynciau gan gynnwys hysbysebu, pecynnau dylunio neu ddarlun.

Gofynion Mynediad:

5 TGAU Gradd C neu uwch (gweler t10), gan gynnwys isafswm Gradd C mewn pwnc yn seiliedig ar Gelf megis Celfyddyd Gain neu Gelf a Dylunio.

Beth allaf ei wneud nesaf?

Cyrsiau lefel prifysgol yng Ngholeg Llandrillo Cymru, gan gynnwys Gradd Sylfaen Celf a Dylunio neu HND/HNC Ffotograffiaeth, cyrsiau lefel prifysgol eraill, gwaith.

Celf a Dylunio (Tecstilau)

Bydd y cwrs yn gorchuddio agweddau eang o ddylunio ffasiwn thecstilau gan gynnwys gwybodaeth waith o ddeunyddiau, arferion a thechnoleg. Byddwch yn datblygu'r gallu i werthfawrogi'r gair gweledol ac ymateb mewn modd bersonol a chreadigol i ddatblygiad Ffasiwn.

Gofynion Mynediad:

5 TGAU, Gradd C neu uwch (gweler t10).

Beth allaf ei wneud nesaf?

Cyrsiau lefel prifysgol yng Ngholeg Llandrillo Cymru, gan gynnwys Gradd Sylfaen Celf a Dylunio neu HND/HNC Ffotograffiaeth, cyrsiau lefel prifysgol eraill, gwaith.

Bywydeg

Mae'r cwrs yn cynnwys unedau ar bob ffurf o fywydeg, gan gynnwys Maeth, Anadliad, Ecoleg a Homeostasis. Mae'r cwrs yn archwilio ffisioleg systemau'r corff, biocemeg sylfaenol ac uwch strwythur celloedd.

Gofynion Mynediad:

5 TGAU Gradd C neu uwch (gweler t10), gan gynnwys isafswm Gradd C mewn Bywydeg neu CC mewn Dyfarniad Gwyddoniaeth Dwbl.

Beth allaf ei wneud nesaf?

Cyrsiau lefel prifysgol, Meddygaeth, Deintyddiaeth, Nyrzio neu Ffisiotherapi.

Astudiaethau Busnes

Mae'r cwrs yn darparu cyfle i ddatblygu gwerthfawrogiad o sut mae busnesau'n gweithio. Mae astudiaeth yn cynnwys Marchnata, Cyllid, Cyfrifeg ac Adnoddau Dynol.

Gofynion Mynediad:

5 TGAU Gradd C neu uwch (gweler t10). Nid yw'n hanfodol eich bod wedi astudio'r pwnc ar lefel TGAU, ond os ydych chi wedi, yna mae Gradd C yn ddymunol.

Beth allaf ei wneud nesaf?

Cyrsiau lefel Prifysgol yng Ngholeg Llandrillo Cymru, gan gynnwys Gradd Sylfaen Rheolaeth a Busnes, Adwerthu neu Gyllid, cyrsiau lefel prifysgol eraill, gwaith.

Cemeg

Dyma bwnc diddorol a beichus sy'n cynnwys ystod o sgiliau gan gynnwys gwaith ymarferol. Bydd y cwrs yn apelio i bob myfyriwr sydd eisiau gwybodaeth a deallwriaeth ddyfnach o'r ffordd y caiff egwyddorion Cemeg eu defnyddio ym mywyd bob dydd.

Gofynion Mynediad:

5 TGAU Gradd C neu uwch (gweler t10), gan gynnwys isafswm o 2 Radd C mewn pwnciau sy'n seiliedig ar wyddoniaeth.

Beth allaf ei wneud nesaf?

Cyrsiau lefel prifysgol mewn Cemeg, Peirianeg, Biocemeg neu Wyddoniaeth Fforensig.

AS/A2 Levels



After leaving school the College gave me a more adult style of teaching. I hope to go onto university after my A Levels; College has really prepared me for the future.

Caroline Thomas

A Level Sociology, Psychology and English Language



Art & Design

This course covers a combination of Fine Art, Creative Textiles, Photography and 3D design and would be ideal if you draw well from observation and enjoy drawing in various media. You will learn to develop your own technical art skills and enjoy looking at work produced by artists.

Entry Requirements:

5 GCSEs Grade C or above (see p11), including a minimum Grade C in an Art-based subject such as Fine Art or Art & Design.

What can I go on to do next?

University level courses at Coleg Llandrillo Cymru, including Foundation Degree Art & Design or HND/HNC Photography, other university level courses, employment.

Art & Design (Fine Art)

This is a broad, practical course which introduces you to a wide range of materials and techniques within painting, printmaking and sculpture.

Entry Requirements:

5 GCSEs Grade C or above (see p11), including a minimum Grade C in an Art-based subject, such as Fine Art or Art & Design.

What can I go on to do next?

University level courses at Coleg Llandrillo Cymru including the Foundation Degree Art & Design or HND/HNC Photography, other university level courses, employment.

Art & Design (Graphics)

This course will give you opportunity to explore different aspects of Graphic Design from letterform to using computer graphics. You can choose from a range of projects including advertising, packaging design or illustration.

Entry Requirements:

5 GCSEs Grade C or above (see p11), including a minimum Grade C in an Art-based subject such as Fine Art or Art & Design.

What can I go on to do next?

University level courses at Coleg Llandrillo Cymru including the Foundation Degree Art & Design or HND/HNC Photography, other university level courses, employment.

Art & Design (Textiles)

This course covers the broad aspects of fashion and textile design including a working knowledge of materials, practices and technology. You'll develop the ability to appreciate the visual world and respond in a personal and creative way to the development of Fashion.

Entry Requirements:

5 GCSEs at Grade C or above (see p11).

What can I go on to do next?

University level courses at Coleg Llandrillo Cymru including the Foundation Degree Art & Design or HND/HNC Photography, other university level courses, employment.

Biology

The course includes units on all forms of biology, including Nutrition, Respiration, Ecology and Homeostasis. The course examines the physiology of body systems, basic biochemistry, and cell ultrastructure.

Entry Requirements:

5 GCSEs Grade C or above (see p11), including a minimum of Grade C in Biology or CC in Double Award Science.

What can I go on to do next?

University level courses, Medicine, Dentistry, Nursing or Physiotherapy.

Business Studies

This course provides an opportunity to develop an appreciation of how businesses work. Study includes Marketing, Finance, Accounting and Human Resources.

Entry Requirements:

5 GCSEs Grade C or above (see p11). It is not essential for you to have studied the subject at GCSE, but if you have, then a Grade C is desirable.

What can I go on to do next?

University level courses at Coleg Llandrillo Cymru, including a Foundation Degree Management & Business, Retail or Finance, other university level courses, employment.

Chemistry


This is an interesting and demanding subject involving a range of skills including practical work. This course will appeal to all students who wish to gain a deeper knowledge of the way in which the principles of Chemistry are applied in everyday life.

Entry Requirements:

5 GCSEs Grade C or above (see p11), including a minimum of 2 Grade Cs in Science-based subjects.

What can I go on to do next?

University level courses in Chemistry, Engineering, Biochemistry or Forensic Science.



Meddwl yn Feirniadol

Mae Meddwl yn Feirniadol yn wahanol i bob pwnc arall gan nad ydyw'n golygu dysgu ffeithiau. Mae am ddysgu sut i feddwl a rhesymu, yn ogystal â sut i ysgrifennu mewn modd gydlynol a rhesymegol. Yn gynyddol mae angen y math o sgiliau meddwl fel rhan o weithdrefn mynediadau ar gyfer prifysgol mwy traddodiadol.

Gofynion Mynediad:
5 TGAU Gradd C neu uwch (gweler t10).

Beth allaf ei wneud nesaf?
Cyrsiau lefel prifysgol, gwaith.

Astudiaethau Drama a Theatr

Mae'r cwrs yma'n darparu'r cyfle i ddatblygu eich sgiliau a dealltwriaeth o Gelfyddydau Perfformio (Dawns, Drama, a Cherddoriaeth) ac ennill mewnwelediad i gyfleoedd gwaith a natur byd gwaith gan ei fod yn gysylltiedig i Ddiwydiant Celfyddydau Perfformio.

Gofynion Mynediad:
5 TGAU Gradd C neu uwch (gweler t10), byddai isafswm Gradd C mewn pwnc yn seiliedig ar Gelf yn ddymunol, neu ddiddordeb allanol cryf yn y celfyddydau perfformio gyda sgiliau perfformio wedi'u profi.

Beth allaf ei wneud nesaf?
Gradd neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch BTEC mewn Celfyddydau Perfformio, gwaith gan gynnwys Gweinyddiad a Marchnata Celf, Drama, Cerddoriaeth neu Ddawns.

Electroneg

Nod y cwrs yma yw i roi'r wybodaeth a sgiliau rydych eu hangen i allu dylunio, adeiladu, profi, a dadansoddi cylchedau electronig sydd â swyddogaeth ddefnyddiol.

Gofynion Mynediad:
5 TGAU Gradd C neu uwch (gweler t10). Mae isafswm o Radd C mewn pwnc yn seiliedig ar wyddoniaeth yn ddymunol.

Beth allaf ei wneud nesaf?
Cyrsiau lefel prifysgol yng Ngholeg Llandrillo Cymru mewn Peirianeg neu Gyfrifiadureg, cyrsiau lefel prifysgol eraill, gwaith.

Iaith Saesneg

Mae'r cwrs yma'n anelu i gyfuno dysgu am natur a swyddogaethau iaith gyda datblygiad amrywiaeth o sgiliau ysgrifennu. Byddwch yn dysgu am gysyniadau a themau ieithyddol, gan gynnwys astudio iaith lafar ac ysgrifenedig.

Gofynion Mynediad:
5 TGAU Gradd C neu uwch (gweler t10).

Beth allaf ei wneud nesaf?
Cyrsiau lefel prifysgol, gwaith.

Llenyddiaeth Saesneg

Os ydych chi'n ddarllenwr brwd ac yn mwynhau trafodaeth, ymunwch â ni, ymunwch yn y ddadl ac astudiwch Llenyddiaeth Saesneg. Bydd y cwrs yn datblygu eich sgiliau fel darllenwr a beirniad addysgiadol, annibynnol o destunau llenyddol.

Gofynion Mynediad:
5 TGAU Gradd C neu uwch (gweler t10), gan gynnwys Gradd C neu uwch mewn Llenyddiaeth Saesneg.

Beth allaf ei wneud nesaf?
Cyrsiau lefel prifysgol, gwaith.



Critical Thinking

